



Swydd: Aelod o'r TÎM GOFAL CWSMER
Adran: BLAEN TŶ
Yn atebol i: Rheolwr Arlwyo a Gofal Cwsmer

Dyddiad cau: 15:00, dydd Llun, 25 Medi 2017
Cyfweliadau: I'w gadarnhau
Cyflog: £16,640
Oriau: 40 awr yr wythnos
[ROTA Llun – Sul fydd yn cynnwys oriau anghymdeithasol, penwythnoasau a Gwyl Banc]

Os oes angen gwybodaeth pellach neu sgwrs anffurfiol:
Jonathan Evans 01286 685 250
jonathan.evans@galericaernarfon.com

Ydy'r diddordeb, yr egni a'r agwedd iawn gennych i fod yn ran allweddol o'n Tîm Gofal Cwsmer?

Mae'r tîm yn gyfrifol am roi gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid mewn lleoliad arbennig ac awyrgylch diddorol, amrywiol a phrysur.

Prif bwrpas y Swydd:

I sicrhau profiad eithriadol a chofiadwy i'n ymwelwyr drwy:

- Roi gwybodaeth perthnasol a thrylwyr am y Ganolfan a'i gweithrediadau /digwyddiadau
- Ymdrin â phryniant/gwerthiant yn y Caffi, Bar a'r Swyddfa Docynnau
- Ateb y switsfwrdd
- Ymateb i ymholiadau a'u trosi i werthiant
- Delio yn effeithiol â chwynion Cwsmeriaid

Mae'r swydd yma yn gyfle unigryw i ddatblygu sgiliau sylfaenol, amrywiol a hunan hyder mewn awyrgylch greadigol sydd yn cynnig cyflog teg i'r unigolion sy'n dangos safonau rhagorol yn gyson.

Bydd hyfforddiant priodol ar gael i'r ymgeisydd llwyddiannus gyda'r agwedd sy'n sefyll allan.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Rhoi gwasanaeth rhagorol a chyson i holl gwsmeriaid Galeri boed hynny'n gweini yn y Caffi/ Bar, ar y Swyddfa Docynnau neu ar ddyletswyddau Blaen Ty

Cynrychioli'r Cwmni mewn ffordd cyfeillgar a phroffesiynol ym mhob cyffyrddiad gyda'n cwsmeriaid

Cyflwyno agwedd positif o'u hunain a'r Cwmni ar bob achlysur

Ymateb yn effeithiol i ymholiadau staff a cwsmeriaid, delio efo cwynion a blaenyrru'r rhai sydd yn berthnasol i adrannau eraill

Dangos sylw manwl at fanylion

Rhoi gwybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau a gynnigir gan Galeri

Cefnogi gweithgareddau marchnata a hyrwyddo

Sicrhau bod galwadau ffon yn cael eu hateb mewn dull proffesiynol ac amserol

Trosglwyddo negeseuon yn gywir ac yn brydlon i'r adrannau perthnasol

Arddel dull ag agwedd proffesiynol tuag at pob agwedd o bryniant a gwerthiant-Uwchwerthu ar bob cyfle

Gwaith gweinyddol a recordio data sy'n angenrheidiol ar y Swyddfa Docynnau

Rheoli a gwarchod gwybodaeth cyfrinachol yn unol â deddfwriaeth

Gweithio yn effeithiol fel unigolyn ac yn rhan o dim i sicrhau gweithrediad llyfn y Cwmni

Arwain trwy esiampol

Cyfarfod gofynnion hyfforddiant a datblygiad y swydd

Bod yn flaenweithgar i amgylchiadau

Cydymffurfio efo Polisiau Iechyd a Diogelwch a gweithio'n ddiogel

Cymhwyseddau Ymddygiad / Sgiliau

Y gallu i hyrwyddo a gwerthu gwasanaeth a digwyddiadau'r Ganolfan

Y gallu i wneud gwahaniaeth positif a chofiadwy i'r cwsmer, trosgludo lefel uchel o wasanaeth heb oruchwyliaeth barhaol

Y gallu i weithio yn rhan o dim, cefnogi cyd-weithwyr a hyrwyddo ysbryd da

Unigolyn positif gydag agwedd 'gall wneud'

Awyddus i ddatblygu eu hunain a dysgu sgiliau newydd

Unigolyn sy'n gwerthfawrogi ac sy'n ymrwymedig i ddiwylliant gwahanredol y Cwmni

Cyfathrebwr da sy'n gwranddo ac yn gallu mynegi eu hunain yn glir

Unigolyn sy'n croesawu newid, sy'n hyblyg ac sy'n gallu addasu a delio efo galw gwahanol

Ymroddedig, Dibynadwy ac Hyblyg

Dealltwriaeth o anghenion cydymffurfio a gweithio'n unol â chytundeb lefel gwasanaeth

Arall:

Ymgymrud âc unrhyw ddyletswyddau arall sy'n gymesurol â lefel cyfrifoldeb y swydd

Gallu gweithio oriau anghymdeithasol

Gallu gweithio patrwm rota hyblyg e.e gyda'r nosau,penwythnosau/Gwyliau Banc

Manyldeb Person:

Egniol, brwdfrydig, cwrtais, angerddol

Hefo gwir ddiddordeb mewn pobol

Arddangos hunan gred

Arddangos gonestrwydd

Yn ddigon hyderus i gyfrannu syniadau er mwyn gwella gwasanaeth cwsmer

Yn ymrwymedig i wasanaeth cwsmeriaid ardderchog

Yn gofalu am gwsmeriaid a chyd-weithwyr

Angerddol am y celfyddydau a gweledigaeth Galeri

Yn awyddus i ddatblygu gyrfa mewn byd celfyddydol a chreadigol

Gweithredol

Yn datblygu'n barhaus

Sydd âg agwedd 'gall wneud' cadarnhaol

Dangos egni uchel



galericaernarfon.com

Twitter: @_Galeri_

Facebook: /GaleriCaernarfon